

# CYLCHLYTHYR YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL DYFED 2021

ymddiriedolaeth archaeolegol
DYFED
archaeological trust

# 2021

Am i’r flwyddyn hon fod yn flwyddyn ryfedd arall, penderfynom fod angen rhoi crynhoad 2021 er mwyn cadw mewn cysylltiad â chi gyd sydd â diddordeb yng ngwaith Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Diolch byth, rydym wedi bod yn eithaf prysur…

Yn sgil y nifer fawr o brosiectau gwaith maes masnachol yn ystod y gwanwyn a’r haf, cyflogodd yr Ymddiriedolaeth nifer o aelodau staff dros dro. Hefyd, enillodd yr Ymddiriedolaeth gontract i ddarparu gwasanaethau archaeolegol ar welliannau ffordd yr A40 gerllaw Arberth, felly byddwn yn cyflogi gweithwyr maes eraill dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Ym mis Mehefin, penodom gynorthwyydd gweinyddol newydd, Rebecca Hopkins; ymunodd ein cynorthwyydd gweinyddol blaenorol â’n Hadran Rheoli Treftadaeth.

Mae Erin Lloyd wedi’i chyflogi yn ein Hadran Rheoli Treftadaeth i weithio ar y prosiect Afonydd ac Amgylcheddau Glannau Afon a ariennir gan Cadw.

Gan ddechrau ym mis Chwefror 2022, mae Ucheldiroedd Arfordirol: Treftadaeth a Thwristiaeth yn brosiect partneriaeth rhwng Prifysgol Aberystwyth, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (YAD) a Choleg Prifysgol Dulyn. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi penodi Jessica Domiczew i redeg elfen rhan YAD o’r prosiect hwn a ariennir gan yr UE.

Fe wnaeth Sarah Rees, sydd wedi bod gyda’r Ymddiriedolaeth ers deng mlynedd, adael ar ddiwedd mis Hydref i weithio ar ei busnes teuluol. Cyflawnodd Sarah lawer o brosiectau allgymorth cymunedol, gan gynnwys y prosiect llwyddiannus iawn, Unloved Heritage, a oedd yn canolbwyntio ar ennyn diddordeb pobl ifanc o Lanelli mewn treftadaeth. Byddwn wir yn gweld eisiau Sarah.

Priododd Jenna Smith, Archaeolegydd Rheoli Treftadaeth, ym mis Medi, ac mae’r Ymddiriedolaeth yn dymuno’r gorau i’r ddau ohonyn nhw i’r dyfodol.

Mae Ken Murphy, Prif Swyddog Gweithredol yr Ymddiriedolaeth, wedi’i benodi’n olygydd Archaeologia Cambrensis.



Hubert Wilson yn gwneud gwaith arolwg yng Nghaer Bentir Porth y Rhaw.

# Ein Flwyddyn Mewn Rhifau



Ymgymerwyd â dros **75** o Brosiectau Archaeolegol.



Fel cynghorwyr i'n hawdurdodau cynllun lleol, rydym wedi prosesu ac asesu dros **4000** o Geisiadau Cynllunio



Rydym wedi ychwanegu dros **2000** o gofnodion craidd newydd a dros **150** o gofnodion dig-wyddiadau newydd at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol



Rydym wedi cael dros **100** o ymholiadau ynglŷn â'r Amgylchedd Hanesyddol, neu ddarganfyddiadau archaeolegol



Rydym wedi ychwanegu dros **130** o ddarganfyddiadau at y Gronfa Ddata Hynafiaethau Cludadwy



Rhoddodd dros **150** o wirfoddolwyr fwy na 1000 o ddiwrnodau o'u hamser dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch o galon i chi gyd!



Staff a gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth yn cloddio yn ystod gwaith datgymalu ac adeiladu rhan 40m o wal mynwent yr eglwys yn Eglwys St Tyfie a St Faith, Llandyfái, Sir Benfro.



# Capel Sant Padrig

Ymgymerwyd â'r prosiect hwn mewn partneriaeth â Phrifysgol Sheffield, gyda chefnogaeth gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gyda chyllid gan y Prosiect Cysylltiadau Hynafol a ariennir gan yr UE, a Cadw.

Dechreuodd y gwaith cloddio chwe wythnos ym mis Mehefin, ac adeiladodd ar waith yr ymgymerwyd ag ef yn 2014/15/16 a 2019. Elfen gydnabyddedig gynharaf y safle, yn dyddio'n ôl i'r 8fed ganrif, oedd cofadail neu gysegrfa betryalog wedi'i hadeiladu o gerrig yn meddiannu canol clostir hirgrwn wedi'i adeiladu o gerrig. Yn gysylltiedig â hynny, roedd tystiolaeth o feddiannaeth ar ffurf asgwrn anifail wedi llosgi a grawn wedi'u carboneiddio a gweithgarwch diwydiannol ysgafn, gan gynnwys castio efydd a gwneud gwrthrychau ambr.

Wrth i amser fynd yn ei flaen, fe wnaeth tywod wedi'i chwythu gan wynt orchuddio'r gofadail/gysegrfa a'r clostir hirgrwn, a dechreuwyd claddu plant a babanod newydd-anedig. Yn weddol gyflym ar ôl y claddedigaethau cyntaf hyn, adeiladwyd wal amgáu mynwent yn uniongyrchol dros ben y gofadail/gysegrfa a'r clostir hirgrwn. Roedd claddedigaethau diweddarach yn cynnwys oedolion yn ogystal â phlant. Yn y pen draw, fe wnaeth tywod wedi'i chwythu gan wynt orchuddio wal amgáu'r fynwent, ond parhawyd i gladdu yno. Yn yr unfed ganrif ar ddeg neu'r ddeuddegfed ganrif, adeiladwyd capel o gerrig, Capel Sant Padrig, ar ben y fynwent. Gadawyd y capel yn wag yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

Bydd Katie Hemer, cyn fyfyriwr ym Mhrifysgol Sheffield, yn adrodd ar yr olion dynol, gan gynnwys dadansoddiad isotopig a dadansoddiadau gwyddonol eraill. Bydd cyn fyfyriwr o Brifysgol Sheffield, Angelos Hadjikoumis, yn adrodd ar yr asgwrn anifail. Bydd Nancy Edwards o Brifysgol Durham yn adrodd ar y cerrig wedi'u marcio â chroes a cherrig addurnedig eraill, a bydd Mark Redknap yn adrodd ar arteffactau canoloesol cynnar. Mae samplau wedi'u hanfon ar gyfer pennu dyddiad radiocarbon ac ar gyfer dadansoddiadau palaeoamgylcheddol.

Cloddiad cymunedol oedd hwn gyda 54 o wirfoddolwyr yn rhoi 530 diwrnod o'u hamser i'r prosiect. Mae Capel Sant Padrig yn sefyll ar gyrion Porthmawr, Tyddewi, sef y traeth mwyaf poblogaidd yng Nghymru ymhlith twristiaid, ac felly roedd darparu teithiau safle i aelodau'r cyhoedd yn elfen fawr o'r prosiect. Dangoswyd cyfanswm o ryw 17,000 o ymwelwyr o amgylch y gloddfa. Daeth rhaglen boblogaidd y BBC 'Digging For Britain' i ffilmio'r cloddio i'w gynnwys ar y rhaglen, a daeth yr Athro Alice Roberts i ymweld â'r safle hefyd, a chafodd ei swyno gan yr archaeoleg, yn ogystal â'r golygfeydd!

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am gloddiadau Capel Sant Padrig yma -

https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/cy/discovery/projects/st-patricks-chapel-whitesands-st-davids/




Gwirfoddolwyr yn gogru yng Nghapel Sant Padrig.



Staff yr Ymddiriedolaeth gyda Chyflwynydd Digging For Britain, Yr Athro Alice Roberts.








Capel Sant Padrig. Uchaf: y gofadail/gysegrfa betryalog yn y clostir hirgrwn. Chwith: un o'r cerrig â chroes wedi'i hendorri arni o'r gofadail/gysegrfa. Dde: lluniad o un o'r cerrig addurnedig o'r gofadail/gysegrfa.

# Caer Bentir Porth y Rhaw

Bu'r prosiect cymunedol hwn yn rhedeg am dair wythnos, gan ddechrau ym mis Gorffennaf, ac fe'i hariannwyd gan Cadw gyda chymorth gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Roedd yr ardal a gloddiwyd ychydig y tu mewn i brif fynedfa'r gaer bentir, yn cysylltu'r ardal fewnol a gloddiwyd yn y 1990au gydag ardal y fynedfa a gloddiwyd yn 2019.

Roedd tŷ crwn cerrig yn uniongyrchol i'r gogledd o'r fynedfa, yn swatio ynghudd y tu ôl i'r banc amddiffynnol mewnol. Mae rhan o'r tŷ crwn wedi'i cholli i erydiad arfordirol. Roedd yn amlwg yn eilaidd, gan iddo gael ei adeiladu ar ddeunydd wedi'i wasgaru o'r banc. Roedd llwybr fflagenni, yn cynnwys darnau o faen melin wedi torri yn arwain at fynedfa'r tŷ crwn, a ddiffiniwyd gan garreg riniog nadd hir. Dim ond pocedi o lawr garw a oroesodd yn y tŷ crwn. Roedd o leiaf un o'r meini melin yn Romano-Brydeinig o ran cymeriad, ac mae hyn, ynghyd â chrochenwaith o ddyddiad tebyg o uwchben y dyddodion llawr, yn dystiolaeth o ddyddiad Rhufeinig ar gyfer y tŷ crwn, yn debyg o ran dyddiad i'r tŷ crwn cerrig i'r de o'r fynedfa yr ymchwiliwyd yn rhannol iddo yn y 1990au.

Roedd cloddfa 2021 yn archwilio'r ardal rhwng y fynedfa i'r fryngaer a'r tŷ crwn i'r de o'r fynedfa. Yma, roedd haenau sylweddol o rwbel wedi'u gosod i greu llwyfannau gwastad. Roedd y rhain, ynghyd â rwbl o waliau'r tŷ crwn, yn selio cyfres o byllau a oedd yn cynnwys dyddodion siarcol.

Gobeithir gallu cloddio'r tŷ crwn i'r de o'r fynedfa a dyddodion haenedig cysylltiedig yn y blynyddoedd i ddod. Treuliwyd cryn dipyn o'r gwaith cloddio tair wythnos yn 2021 yn digroeni ac
ôl-lenwi, ac felly byddai tymhorau yn y dyfodol yn elwa o fod yn bedair wythnos o hyd o leiaf.

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am gloddiadau Gloddiadau Porth y Rhaw yma -

https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/cy/discovery/projects/porth-y-rhaw-coastal-promontory-fort/



Gwirfoddolwyr yn cloddio ymyl tŷ crwn.

Gwirfoddolwyr a Staff ym Mhorth y Rhaw, yn dangos ein bod yn cloddio ym mhob math o dywydd!





Llwybr fflagenni ym Mhorth y Rhaw, gellir gweld maen melin wedi'i ailddefnyddio yn y canol.

Gwirfoddolwyr yn y brif ffos ym Mhorth y Rhaw.



# Bryngaer Pen Dinas

Bu'r cloddiad cymunedol hwn ar brif fryngaer ar gyrion Aberystwyth yn rhedeg am dair wythnos, gan ddechrau ym mis Medi. Fe'i hariannwyd gan Cadw.

Pen Dinas yw un o'r bryngaerau mwyaf yn yr ardal, ac er mai'r Cyngor Sir sy'n berchen ar y rhan fwyaf ohoni, ac er bod mynediad i'r cyhoedd yno a'i bod yn weledol iawn o bob rhan o Aberystwyth a thu hwnt, mae'n adnodd nad yw'n cael ei werthfawrogi na'i ddefnyddio digon, ac nid oes fawr i ddenu'r cyhoedd yno na'i ddehongli iddynt.

Roedd y cloddiad hwn yn gweithio fel ffocws ac atyniad i gynnwys y gymuned leol yn uniongyrchol yn y gwaith cloddio ei hun, ynghyd â gweithgareddau ehangach yn y gymuned. Rhoddwyd teithiau tywysedig o'r safle gan staff a gwirfoddolwyr i aelodau'r cyhoedd – daeth dros 1200 o ymwelwyr i ymweld â'r safle! Rhagwelir y bydd y prosiect yn datblygu'n brosiect mwy uchelgeisiol dros dair i bedair blynedd, gyda'r flwyddyn gyntaf hon yn gychwyn cymharol gymedrol.

Bu C Daryll Forde yn cloddio ym Mhen Dinas rhwng 1933 a 1937. Yn 2021, agorom ran o'i ffos yn y fynedfa ddeheuol ac ardal y tu mewn, gan gynnwys o leiaf un llwyfan tŷ y mae ffotograffau'n awgrymu y cafodd ei gloddio gan Forde. Canfuwyd yn gyflym fod gwaith cloddio Forde yn y fynedfa wedi bod yn fwy helaeth nag yr adroddodd, a byddai ailgloddio ei ffos wedi cymryd llawer iawn o amser, ac felly canolbwyntiom ar yr ardal y tu mewn i'r fynedfa. Yma, darganfuwyd dau lwyfan tŷ, nad oedd yr un ohonynt wedi'u cloddio gan Forde. Roedd y ddau wedi'u torri i mewn i greigwely caled. Roedd yr ardal gloddio fwyaf ar lwyfan isaf y tŷ, ychydig y tu mewn i'r fynedfa. Yma, datgelwyd draen a nodweddion eraill yn cynnwys tyllau pyst, ond heb unrhyw batrwm clir. Cloddiwyd ffos gul ar draws lwyfan uchaf y tŷ, gan ddatgelu llu o nodweddion. Fel arfer ar safleoedd yr Oes Haearn yng ngorllewin Cymru, roedd arteffactau'n brin, ond roedd glain ambr fawr yn ddarganfyddiad nodedig.

Rydym wrthi'n ysgrifennu'r adroddiad interim ar gyfer y cloddiad hwn ar hyn y bryd, a bydd ar gael i'w weld ar ein gwefan pan fydd wedi'i gwblhau. Ond gallwch weld ein diweddariadau a lluniau ar ein cyfryngau cymdeithasol, chwiliwch am Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (@DyfedArch) ar Facebook, Instagram neu Twitter.



Golwg ysblennydd o Fryngaer Pen Dinas ar ddechrau ein cloddiad.



Ken Murphy yn mynd ag Aelodau YAD ac eraill ar daith.



Golwg o’r awyr o ffos gloddio Pen Dinas.



Gwirfoddolwr a ganfyddodd glain ambr.



Fran Murphy yn dangos glain arall a ganfuwyd i wirfoddolwyr.

# Hen Felin Penllergare

Bu'r Ymddiriedolaeth yn rhedeg cloddiad cymunedol dros bythefnos gydag Ymddiriedolaeth Penllergare, a ariannwyd gan Gymdeithas Gŵyr, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr lleol i archwilio safle hen felin ddŵr yng Nghoed Cwm Penllergare yn Abertawe.

Roedd y safle o ddiddordeb gan ei fod yn rhagddyddio datblygiad tirwedd ystâd John Dillwyn Llewellyn yn y 19eg ganrif, ond ychydig iawn o wybodaeth oedd amdano. Datgelwyd ystod o adeileddau o gerrig sychion ar hyd glan yr afon, gan gynnwys pwll crwn anghyffredin wedi'i leinio â cherrig ynghyd â'r hyn y credwyd oedd yn sianel all-lif dŵr, a hen feini melin a ailddefnyddiwyd i'w adeiladu. Datgelwyd fwy o waliau cerrig â morter o fewn clostir uwchlaw'r olion hyn.

Mae ymchwil hanesyddol, arteffactau, a chanlyniadau cloddio, yn dynodi bod y safle wedi'i feddiannu o'r 17eg ganrif i ddechrau'r 19eg ganrif o leiaf. Er iddynt ddenu digonedd o ddiddordeb lleol, ac ymweliadau gan arbenigwyr diwydiannol a melino, mae'r adeileddau'n parhau'n enigmatig, ond mae ymchwil ddiweddar yn dynodi mai sychwr ŷd yw'r pwll crwn, ac mai ffliw yw'r sianel ac nid sianel all-lif ar gyfer dŵr.



Golwg o'r awyr o safle'r felin ym Mhenllergare.



Gwirfoddolwyr a staff ym Mhenllergare o flaen y pwll crwn wedi'i leinio â cherrig. Mae maen melin wedi torri yn gorwedd yn yr afon oddi tano.